# Meini Prawf Derbyn ar gyfer Busnesau Cofrestredig

## 1. Amdanom ni

1.1 Y Cyngor Optegol Cyffredinol (“GOC”) yw’r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd, mae tua 30,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, optegwyr dan hyfforddiant a busnesau optegol wedi’u cofrestru â ni.

1.2 Mae gennym bedair swyddogaeth graidd:

1.2.1 gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad ac ymddygiad;

1.2.2 cymeradwyo cymwysterau sy’n arwain at gofrestru;

1.2.3 cadw cofrestr o unigolion sy'n gymwysedig ac yn addas i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes fel optometryddion ac optegwyr cyflenwi;

1.2.4 ymchwilio a gweithredu os bydd amhariad ar addasrwydd cofrestreion i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes.

1.3 Ein hamcan cyffredinol yw diogelu’r cyhoedd. Byddwn yn gweithredu pan fydd angen er mwyn diogelu cleifion a/neu gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau optegol a/neu ddatgan a chynnal safonau proffesiynol.

**<u>Diben y ddogfen hon</u>**

1.4 Diben y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i aelodau staff Addasrwydd i Ymarfer, cofrestreion, achwynwyr ac aelodau o’r cyhoedd. Bwriedir iddi egluro'r materion hynny lle y gallwn agor ymchwiliad i weld a yw cwyn mewn perthynas â busnes cofrestredig yn gyfystyr â honiad o amhariad ar addasrwydd i gynnal busnes. Drwy gydol y ddogfen hon, cyfeirir at ‘fusnes cofrestredig’ fel ‘cofrestrai’.

1.5 Yn unol â’n hamcan cyffredinol, bwriedir i weithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer y GOC ddiogelu’r cyhoedd. Ni fwriedir iddynt weithredu fel proses gyffredinol ar gyfer datrys cwynion, ac ni fwriedir iddynt chwaith ddatrys anghydfodau sifil rhwng cofrestreion a chleifion.

1.6 Bydd yn well i gyrff eraill ddelio â rhai cwynion, gan gynnwys materion defnyddwyr, y bydd yn well i’r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) ddelio â nhw. Mae gan yr OCCS amrywiaeth ehangach o ddulliau a all ddatrys rhai cwynion yn fwy priodol. Yn yr un modd, mae'n bosibl y caiff materion eu hatgyfeirio atom gan yr OCCS y bydd angen eu hasesu yn erbyn y meini prawf hyn wedyn. Mae rhagor o wybodaeth am yr OCCS ar gael yn [https://www.opticalcomplaints.co.uk](https://www.opticalcomplaints.co.uk)

1.7 Mae esboniad manwl o'n gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar ddiwedd ymchwiliad, ar gael ar ein gwefan yn https://www.optical.org/en/Investigating_complaints/index.cfm

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

1.8 Mae'r GOC yn ymrwymedig i sicrhau ein bod, wrth arfer ein holl swyddogaethau, yn gweithredu mewn modd teg a thryloyw ac mewn ffordd sy'n rhydd o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Ymdrechwn i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerth, amrywiaeth a chynhwysiant beth bynnag fo statws pobl o ran oedran, anabledd, hil, crefydd neu gred, rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth.

## Beth yw Meini Prawf Derbyn?

1.9 Mae'r Meini Prawf Derbyn hyn yn adnodd rheoli achosion a ddefnyddir gennym i benderfynu a all cwyn fod yn gyfystyr â honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer fel y'i diffinnir gan adran 13D o Ddeddf Optegwyr 1989 ac y bydd angen ymchwilio iddi. Mae'r adran honno'n datgan y gall unrhyw un neu bob un o'r canlynol amharu ar fusnes cofrestredig:

a. Camymddwyn gan y busnes cofrestredig neu gan un o'i gyfarwyddwyr;
b. Arferion neu batrymau ymddygiad sy'n digwydd yn y busnes –
   - yr oedd y cofrestrai yn gwybod amdanynt, neu y byddai'n rhesymol disgwyl iddo fod wedi gwybod amdanynt;
   - ac sy'n gyfystyr â chamymddwyn neu berfformiad proffesiynol diffygiol;
c. Gweithred gan y busnes cofrestredig i annog arferion neu batrymau ymddygiad a fyddai'n gyfystyr â chamymddwyn neu berfformiad proffesiynol diffygiol, neu a fyddai'n gyfystyr â hynny pe baent yn cael eu rhoi ar waith;
d. Rhybuddiad neu euogfarn i'r busnes cofrestredig neu i un o'i gyfarwyddwyr;
e. Achos yn yr Alban yn erbyn y busnes cofrestredig neu un o'i gyfarwyddwyr yn unol ag adran 13D(3)(e) ac (f);
f. Penderfyniad gan gorff arall.

1.10 Os bydd cwyn yn bodloni'r Meini Prawf Derbyn, byddwn yn agor ymchwiliad i weld a oes amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i gynnal busnes. Dim ond i fusnesau cofrestredig y mae'r Meini Prawf Derbyn hyn yn berthnasol. Ceir meini prawf ar wahân sy'n berthnasol i unigolion cofrestredig.

1.11 Bydd y ddogfen hon yn archwilio pryd y dylid agor cwyn yn erbyn busnes a/neu pryd y dylid agor cwyn yn erbyn y cyfarwyddwr/cyfarwyddwyr.

1.12 Wrth gyflawni'r dasg hon, byddwn yn cadw'r canlynol mewn cof bob amser:
1.12.1 Ein hamcan cyffredinol;
1.12.2 Diogelu'r cyhoedd;

1.12.3 Ein Safonau Ymarfer; ein Safonau ar gyfer Myfyrwyr a'n Safonau ar gyfer Busnesau Optegol;

1.12.4 Budd y cyhoedd.

1.13 Byddwn yn adolygu'r meini prawf yn rheolaidd i ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a chyfraith achosion, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â dogfennau canllaw cysylltiedig eraill. Byddwn yn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn hygyrch i bawb a fydd yn eu defnyddio.

**Camau y gall y GOC eu cymryd ar y cam Meini Prawf Derbyn**

1.14 Wrth ystyried cwyn newydd, ceir nifer o wahanol gamau y gallwn eu cymryd:

1.14.1 agor ymchwiliad;

1.14.2 agor ymchwiliad ac atgyfeirio'r gŵyn at y Pwyllgor Gorchmynion Interim;

1.14.3 cau'r gŵyn heb gymryd camau pellach; a/neu

1.14.4 cau'r gŵyn a'i hatgyfeirio ymlaen at gorff arall.

1.15 Mewn rhai achosion, bydd yn amlwg o'r cychwyn nad oes angen i ni ymchwilio am fod y gŵyn yn ymwneud â materion na all mater o amhariad ar addasrwydd i gynnal busnes ddeillio ohonynt. Fel arfer, byddwn yn cau'r achosion hyn heb gymryd camau pellach. Efallai y bydd adegau pan fydd yn well i'r OCCS ddelio â chŵyn fel y nodir ym mharagraff 1.6.

1.16 Os caiff y gŵyn ei chau, bydd yn aros ar ffeil fewnol y cofrestrai yn unol â pholisi cadw'r GOC. Gellir ailystyried y gŵyn yn nes ymlaen yng ngoleuni unrhyw gwynion newydd/pellach a godir yn erbyn y cofrestrai.

1.17 Os na fyddwn yn gallu asesu p'un a ddylid agor achos ar ôl cael y wybodaeth gychwynnol ai peidio, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth i helpu gyda'r asesiad. Mae'n bosibl y caiff y gŵyn ei chau hefyd am na allwn gael gafael ar wybodaeth i gadarnhau ymchwiliad.

## 2 Pa gwynion y bydd y GOC yn eu derbyn

2.1 Ceir 12 o safonau y mae'n rhaid i fusnesau eu cyrraedd fel busnesau optegol cofrestredig. https://standards.optical.org/areas/businesses/

2.2 Mae busnesau cofrestredig yn ddarostyngedig i God Ymddygiad ar gyfer Busnesau Cofrestredig ar gyfer unrhyw gŵyn a wnaed (ac a oedd yn ymwneud ag ymddygiad) cyn 1 Hydref 2019. Mae busnesau cofrestredig yn ddarostyngedig i'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol ar gyfer unrhyw gŵyn a wneir (ac sy'n ymwneud ag ymddygiad) o 1 Hydref 2019 ymlaen.

2.3 Nod y safonau hyn yw darparu fframwaith sy'n galluogi'r cofrestrai i arfer ei farn broffesiynol yng nghyd-destun y busnes.

2.4 Mewn perthynas â phob cwyn, byddwn yn ystyried yn gyntaf a yw'r safonau perthnasol wedi cael eu torri o bosibl. Os felly, byddwn wedyn yn ystyried a fyddai'r

achos o dorri'r safonau yn gyfystyr â honiad dan a.13D(3) o Ddeddf Optegwyr 1989.

2.5 Byddwn hefyd yn cynnal asesiad risg mewn perthynas â'r gŵyn a wnaed er mwyn penderfynu a oes risgiau i'r cyhoedd, risgiau i gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a risgiau i gynnal safonau ymddygiad pe na bai'r mater yn cael ei agor.

2.6 Mewn rhai achosion, bydd y gŵyn am gofrestrai yn peri risg ddifrifol neu uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd i'r graddau y gallai fod angen atgyfeirio am orchymyn interim.

<u>Honiadau o dan adran 13D o Ddeddf Optegwyr 1989</u>

<u>Camymddwyn</u>

2.7 Gall honiad o gamymddwyn gael ei wneud yn erbyn busnes cofrestredig neu un o'i gyfarwyddwyr. Nid oes diffiniad statudol o 'gamymddwyn' ac rydym yn dibynnu ar gyfraith achosion sydd wedi datblygu wrth ddiffinio 'camymddwyn'. Caiff y canlynol eu hystyried yn eu tro er mwyn penderfynu a yw cwyn yn gyfystyr â honiad o gamymddwyn:

2.7.1 a oes cwyn am ymddygiad busnes cofrestredig? Os felly,

2.7.2 rhaid i'r camymddwyn y cwynir amdano fod yn ddifrifol, a gallai hyn gynnwys:

i. ymddygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn ymddygiad ceryddus/gresynus/sy'n peri pryder digonol ymhlith cyd-gofrestreion.
ii. ffordd o ymddwyn neu ddigwyddiad untro sy'n arbennig o ddifrifol.

2.8 Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng camymddwyn gan fusnes a chamymddwyn gan un o'i gyfarwyddwyr ac ystyried pryd y bydd yn briodol ymchwilio i gŵyn yn erbyn y busnes cofrestredig neu ymchwilio i gŵyn yn erbyn un o'i gyfarwyddwyr. Ni ddylid gwneud yr un honiad yn erbyn y busnes cofrestredig ac un o'i gyfarwyddwyr; dylai fod yn erbyn naill ai'r busnes neu'r cyfarwyddwr.

2.9 Caiff hyn ei ystyried fesul achos unigol bob amser a gall yr enghreifftiau (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr) o gamymddwyn gynnwys:

2.9.1 Methiannau parhaus o ran cadw data cleifion yn ddiogel (honiad yn erbyn y busnes cofrestredig);

2.9.2 Peidio â datgan rhybuddiad/euogfarn un o'r cyfarwyddwyr cofrestredig (honiad yn erbyn y cyfarwyddwr cofrestredig);

2.9.3 Peidio â datgan rhybuddiad/euogfarn cyfarwyddwr lleyg (honiad yn erbyn y busnes a/neu'r cyfarwyddwr cofrestredig);

2.9.4 Peidio â rhoi polisïau cadarn a chlir ar waith a/neu beidio â sicrhau cydymffurfiaeth â nhw (honiad yn erbyn y busnes cofrestredig);

2.9.5 Cyfarwyddwr cofrestredig yn cymryd arian yn amhriodol/yn anonest o'r busnes (honiad yn erbyn y cyfarwyddwr cofrestredig);

2.9.6 Peidio â rhoi gwybod i'r GOC am gamymddwyn difrifol gan un neu fwy o unigolion cofrestredig y GOC (honiad yn erbyn y busnes cofrestredig);

2.9.7 Caniatáu i unigolion anghofrestredig ymgymryd â swyddogaethau a gyfyngir gan Ddeddf Optegwyr 1989 i gofrestreion y GOC (honiad yn erbyn y busnes cofrestredig);

2.9.8 Peidio ag ymdrin â chwythu'r chwiban yn briodol (honiad yn erbyn y busnes cofrestredig);

2.9.9 Hysbysebu anghywir neu gamarweiniol sy'n arwain at risg bosibl i'r cyhoedd (honiad yn erbyn y busnes cofrestredig) [Sylwer: mae'n debygol y bydd y GOC yn atgyfeirio cwynion at yr Awdurdod Safonau Hysbysebu yn y lle cyntaf].

2.10 Ymhlith yr enghreifftiau o achosion sy'n annhebygol o fod yn gyfystyr â chamymddwyn (lle nad oes nodweddion gwaethygol, na risgiau parhaus i ddiogelwch cleifion nac i fudd y cyhoedd) mae:

2.10.1 Byddai pryderon sydd wedi cael sylw priodol ar lefel leol ac ymyriad rheoleiddiol yn anghymesur;

2.10.2 Mân faterion anghlinigol – fel delio'n wael â chwynion;

2.10.3 Anghydfodau ariannol neu gontractiol;

2.10.4 Materion cyflogaeth;

2.10.5 Cwynion am gost profion golwg/triniaeth a/neu gost dyfeisiau optegol;

2.10.6 Cwynion am lawdriniaeth ar y llygaid gan un o gofrestreion y Cyngor Meddygol Cyffredinol (caiff y rhain eu cyfeirio at y Cyngor Meddygol Cyffredinol).

a) <u>Arferion neu batrymau ymddygiad sy'n arwain at gamymddwyn neu Berfformiad Proffesiynol Diffygiol a/neu</u>

b) <u>Gweithred gan y busnes cofrestredig i annog arferion neu batrymau ymddygiad yn y busnes lle mae'r arferion hynny neu'r ymddygiad hwnnw, neu lle y byddai'r arferion hynny neu'r ymddygiad hwnnw pe baent yn cael eu rhoi ar waith, yn gyfystyr â chamymddwyn neu berfformiad proffesiynol diffygiol.</u>

2.11 Mae'r honiadau hyn yn ymwneud ag ymddygiad ailadroddus gan y busnes a gallant fod yn berthnasol pan gawn nifer o gwynion am yr un materion neu faterion tebyg. Maent yn cynnwys arferion neu batrymau sy'n mynd rhagddynt yn y busnes neu sy'n cael eu hysgogi gan y busnes. Gall yr ymddygiadau hyn fod yn gyfystyr â chamymddwyn neu berfformiad proffesiynol diffygiol. Mae perfformiad proffesiynol diffygiol yn wahanol i gamymddwyn yn yr ystyr ei fod yn golygu perfformiad proffesiynol o safon annerbyniol o isel sydd wedi (ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol) cael ei ddangos drwy gyfeirio at sampl deg o waith y cofrestrai. Caiff yr un broses â'r un yn 2.7 ei dilyn ar gyfer camymddwyn.

2.12 Os bydd honiad o berfformiad proffesiynol diffygiol, caiff y canlynol eu hystyried yn eu tro er mwyn penderfynu a yw cwyn yn gyfystyr â honiad o gamymddwyn:

2.12.1 a oes cwyn am berfformiad proffesiynol y cofrestrai (boed yn unigolyn cofrestredig neu'n fusnes cofrestredig)?

2.12.2 mae'r perfformiad yn annerbyniol o isel ac mae hyn wedi cael ei ddangos drwy gyfeirio at sampl deg o waith.

2.13 Caiff hyn ei ystyried fesul achos unigol a gall perfformiad proffesiynol diffygiol ddeillio o berfformiad y busnes cofrestredig ei hun neu berfformiad unigolyn cofrestredig oherwydd yr arferion neu'r ymddygiadau a anogir gan y busnes. Gall yr enghreifftiau o berfformiad proffesiynol diffygiol gynnwys:

2.13.1 Nifer o fethiannau i sicrhau safonau hylendid priodol;

2.13.2 Methiannau eang i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol i ddefnyddio cyfarpar;

2.13.3 Hyrwyddo'r defnydd o gyfarpar nad yw'n addas i'w ddefnyddio at y diben a fwriedir a/neu nad yw mewn cyflwr da;

2.13.4 Cyflwyno polisi a fydd yn peri i unigolyn cofrestredig dorri safonau proffesiynol.

Rhybuddiad neu Euogfarn

2.14 Gall honiad gael ei wneud yn erbyn cofrestrai os bydd y busnes neu un o'i gyfarwyddwyr wedi cael rhybuddiad a/neu wedi'i gael yn euog o drosedd.

2.15 Bydd copi ardystiedig o euogfarn yn 'dystiolaeth bendant' o'r drosedd.

2.16 Caiff y canlynol eu hystyried yn eu tro er mwyn penderfynu a allai euogfarn /rhybuddiad fod yn gyfystyr â honiad o amhariad ar addasrwydd i gynnal busnes:

2.16.1 A oes rhybuddiad/euogfarn droseddol?

2.16.2 A yw'r rhybuddiad/euogfarn yn gysylltiedig ag ymarfer proffesiynol y cofrestrai a/neu'r ffordd y mae'n cynnal busnes?

2.16.3 A fyddai er budd ehangach y cyhoedd i ymchwilio i'r rhybuddiad/euogfarn? (Er enghraifft, troseddau sydd ar y rhestr o droseddau 'gwahardd awtomatig' a ddelir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).

2.17 Ceir categorïau o rybuddiad/euogfarn sy'n annhebygol fod yn gyfystyr ag amhariad ar addasrwydd i gynnal busnes ac felly mae'n annhebygol y cynhelir ymchwiliad pellach iddynt. Caiff y rhain eu hystyried yn ofalus fesul achos unigol gan roi sylw i'r holl amgylchiadau.

2.18 Nid yw'n debygol yr ymchwilir ymhellach i rybuddiadau/euogfarnau yn erbyn cyfarwyddwr os na fyddant yn gysylltiedig ag ymarfer y cofrestrai ac os na fyddai hynny er budd y cyhoedd. Gall y rhain gynnwys:

2.18.1 mân droseddau moduro;

2.18.2 difrod troseddol lefel isel;

2.18.3 rhybuddiadau/euogfarnau yn erbyn cyfarwyddwr lleyg;

2.18.4 rhybuddiadau ieuenctid;

2.18.5 rhybuddiadau amodol;

2.18.6 rhybuddiadau ac euogfarnau a ddiogelir (ni fyddwn byth yn ymchwilio i'r rhain).

Derbyn cynnig amodol neu gytuno i dalu cosb

2.19 Gall honiad gael ei wneud yn erbyn cofrestrai os bydd y cofrestrai neu un o'i gyfarwyddwyr wedi derbyn cynnig amodol dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 neu wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992.[1]

Achos yn yr Alban

2.20 Gall honiad gael ei wneud yn erbyn cofrestrai os bydd y cofrestrai neu un o'i gyfarwyddwyr, mewn achos yn yr Alban am drosedd, wedi bod yn destun gorchymyn o dan adran 246(2) neu (3) o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (yr Alban) 1995 sy'n ei ryddhau'n ddiamod.[2]

Penderfyniad gan gorff arall

2.21 Gall honiad gael ei wneud yn erbyn cofrestrai os bydd corff yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol o dan unrhyw ddeddfiad am reoleiddio'r proffesiwn iechyd neu ofal cymdeithasol wedi gwneud penderfyniad i'r perwyl bod:

i) amhariad ar addasrwydd y busnes cofrestredig i gynnal busnes fel aelod o'r proffesiwn hwnnw; neu

(ii) amhariad ar addasrwydd cyfarwyddwr y busnes cofrestredig i ymarfer yn y proffesiwn hwnnw.

Neu os bydd corff rheoleiddio yn rhywle arall wedi gwneud penderfyniad i'r un perwyl.[3]

2.22 Ym mhob achos, ni fydd y Cyngor yn gwneud honiad dyblyg yn erbyn y busnes/ cyfarwyddwr a'r cofrestrai fel optometrydd neu optegydd cyflenwi unigol.

## 3 Cyfleu dyfarniadau'r GOC

3.1 Ar ôl cynnal asesiad, bydd y GOC yn hysbysu'r Achwynydd a'r Cofrestrai yn ysgrifenedig, lle bo hynny'n berthnasol.

3.2 Ein nod yw sicrhau ein bod yn cynnal asesiadau priodol a chyson, a bydd y rhain yn ddarostyngedig i'n prosesau sicrhau ansawdd mewnol.

1 Adran 13D(3)(e) o Ddeddf Optegwyr 1989
2 Adran 13D(3)(f) o Ddeddf Optegwyr 1989
3 Adran 13D(g) o Ddeddf Optegwyr 1989

## 4 Hawl i gael adolygiad ar ôl i asesiad gael ei gynnal

4.1 Gall unrhyw berson sy'n anfodlon ar y penderfyniad i **beidio** ag ymchwilio ymhellach i'w gŵyn ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

4.2 Gall unrhyw berson sy'n anfodlon ar y penderfyniad **i** ymchwilio i gŵyn hefyd ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

4.3 Adolygiad o'r penderfyniad a wnaed fydd hwn, ac nid o'r wybodaeth a ddaeth i law. Cofiwch y bydd unrhyw wybodaeth a gyflwynir i ategu cais am adolygiad o'r penderfyniad yn rhan o ymchwiliad y GOC (os cychwynnir ymchwiliad) ac felly y gellid ei hatgyfeirio at Archwilwyr Achos.

4.4 Felly, rydym yn annog cofrestreion i geisio cyngor os byddant yn dymuno gofyn am adolygiad o'r penderfyniad i agor ymchwiliad.

4.3 Dylai ceisiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig, gan gynnwys rhesymau, o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad. Caiff y penderfyniad ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Gwaith Achos a Phenderfynu Achosion a chaiff penderfyniad adolygu ffurfiol ei gyhoeddi o fewn 21 diwrnod ar ôl i'r cais am adolygiad ddod i law.

4.4 Os bydd cwyn wedi cael ei hatgyfeirio ar gyfer ymchwiliad, ni chaiff yr ymchwiliad ei ohirio yn ystod cyfnod yr adolygiad a byddwn yn parhau i gynnal yr ymchwiliad yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dylid anfon ceisiadau at:
Pennaeth Hwyluso Achosion Addasrwydd i Ymarfer / Head of Case Progression Fitness to Practise
Y Cyngor Optegol Cyffredinol
10 Old Bailey
Llundain EC4M 7NG

Neu drwy e-bost i ftp@optical.org

---

**Dolenni defnyddiol**
Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol:

Gwefan: http://www.opticalcomplaints.co.uk/

E-bost: [enquiries@opticalcomplaints.co.uk](mailto:enquiries@opticalcomplaints.co.uk)
Ffôn: 0344 800 5071

Canolfan Cyngor ar Bopeth:
Gwefan:[https://www.citizensadvice.org.uk/](https://www.citizensadvice.org.uk/)
Llinell gymorth: 03454 04 05 06